WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y dyfodol? – **Cyngor Gwynedd**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 751A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd yn rhan o waith a berfformiwyd/ a gaiff ei berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Paul Goodlad, Charlotte Owen ac Alan Hughes dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wedi gwella, fodd bynnag mae angen cryfhau trefniadau craffu yn sgil heriau'r presennol a'r dyfodol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wedi gwella, fodd bynnag mae angen cryfhau trefniadau craffu yn sgil heriau'r presennol a'r dyfodol. 6

- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau craffu 6
- Byddai cynllunio gweithgareddau craffu yn well, defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfraniadau, a dulliau mwy arloesol o gyflawni yn cynyddu effeithiolrwydd craffu 8
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu yn flynyddol, ac mae'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2018 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol 10

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Archwiliodd yr adolygiad hwn ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ba mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ni ystyried sut y mae cynghorau yn ymateb i heriau presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o ran eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom ni hefyd archwilio a yw'r cynghorau mewn sefyllfa dda i allu ymateb i heriau'r dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o'r adolygiad gwnaethom ni hefyd adolygu'r cynnydd y mae cynghorau wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom ni hefyd waith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i'r gwaith craffu y gwnaethom eu cyhoeddi mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol mewn Gwasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau o sefydlu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu i gyfrannu at rannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn cysylltiad â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- darparu sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol a disgwyliadau;
- helpu aelodau etholedig i sefydlu arferion craffu effeithiol o ddechrau cylch etholaethol newydd; a
- darparu dirnadaeth o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu blaenorol.

4 I lywio ein canfyddiadau, gwnaethom ni seilio ein dull o adolygu ar y Canlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?**

5 Gwnaethom ni ein gwaith maes ym mis Hydref 2017 a mis Rhagfyr 2017. Gwnaethom ni adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion a chynnal grwpiau ffocws â chynghorwyr. Gwnaethom ni hyn i ddeall eu barn ar drefniadau craffu presennol Cyngor Gwynedd (y Cyngor). Yn benodol, sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau o'i flaen a sut y mae'n bwriadu ymateb i'r heriau hyn. Gwnaethom ni arsylwi ar sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a roddwyd i aelodau'r pwyllgor i'w cefnogi, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

6 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wedi gwella, fodd bynnag mae angen cryfhau trefniadau craffu yn sgil heriau'r presennol a'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau craffu;
- byddai cynllunio gweithgareddau craffu yn well, defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfraniadau, a dulliau mwy arloesol o gyflawni yn cynyddu effeithiolrwydd craffu; a
- mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu yn flynyddol, ac mae'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2018.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i'w roi mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Datblygu prosesau blaenraglenni craffu ymhellach er mwyn:**<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac egluro hyn i'r cyhoedd; a<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol, ac egluro hyn i'r cyhoedd, ac ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu. |
| **C2** | **Adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.** |
| **C3** | **Egluro swyddogaeth aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gwasanaethau, sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn herio perfformiad gwasanaethau yn briodol ac yn dwyn swyddogion i gyfrif.** |

# Adroddiad manwl

## Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wedi gwella, fodd bynnag mae angen cryfhau trefniadau craffu yn sgil heriau'r presennol a'r dyfodol

### Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau craffu

8 Pwyllgorau craffu'r Cyngor yw Addysg a'r Economi, Cymunedau a Gofal gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu â chyfrifoldeb am graffu ar elfennau corfforaethol y Cyngor. Mae gan y Cyngor Fforwm Craffu sy'n cydgysylltu ac yn goruchwylio gweithgareddau craffu. Mae'r fforwm wedi ychwanegu gwerth at y swyddogaeth craffu ac mae'n helpu i flaenoriaethu meysydd pwnc. Mae ei aelodau yn cynnwys cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu ac archwilio a'r Prif Weithredwr. Yn ystod 2017, adolygodd y Cyngor ei drefniadau blaenorol gan gynnig dwy opsiwn gwahanol. Y ddwy opsiwn a gynigwyd oedd a) addasiad o'r model tri phwyllgor oedd yn bodoli eisoes neu b) cael un pwyllgor, wedi'i gefnogi gan nifer mwy o brosiectau ymchwil craffu sy'n cyd-ddigwydd, wyth o'i gymharu â thri. Er bod y Prif Weithredwr o'r farn y byddai'r model newydd hwn yn lleihau biwrocratiaeth, costau cefnogi a gwaith seilo, ni chafodd ei gymeradwyo gan y cynghorwyr.

9 Mae'r swyddogaeth graffu wedi'i diffinio yng Nghyfansoddiad y Cyngor a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Mai 2018. Ar y cyfan, mae swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r cabinet, aelodau pwyllgorau a chynghorwyr eraill wedi'u nodi'n eglur ac maent yn eu deall.

10 Mae'r Cyngor yn awyddus i sefydlu Cyd-banel Craffu â Chyngor Sir Ynys Môn, a gaiff ei sefydlu trwy'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar adeg ein hadolygiad, yr oedd yn rhy gynnar i werthuso effaith y trefniant newydd hwn.

11 Dywedodd Aelodau'r Cabinet wrthym eu bod o'r farn y bu gwelliant mewn trefniadau craffu, ac yn effaith gweithgareddau craffu yn ystod y 18 mis diwethaf. Roedd cadeiryddion craffu yn rhannu'r farn hon ac yn dweud bod gwell cyfathrebu ag aelodau'r Cabinet wedi arwain at well perthynas ag eraill a gwell arferion rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd aelodau craffu eraill o'r farn nad yw'r Cabinet yn gwerthfawrogi'r swyddogaeth graffu. Mae'r Cabinet yn cwrdd yn fwy rheolaidd na phwyllgorau craffu, ac mae ganddo flaenraglen waith helaeth. Myfyriodd aelodau'r Cabinet ac aelodau craffu y cynhelir cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn llai rheolaidd na'r Cabinet, sy'n llesteirio gallu'r swyddogaeth graffu i lywio penderfyniadau'r Cabinet. O ganlyniad i ehangder ac amrywiaeth swyddogaethau'r Cyngor, a'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i graffu'n effeithiol, bydd angen i bwyllgorau

craffu flaenoriaethu eu rhaglenni gwaith bob amser. Mae cyfle felly i bwyllgorau ystyried a allen nhw flaenoriaethu penderfyniadau yn fwy effeithiol yn hytrach na chynnal cyfarfodydd yn fwy rheolaidd.

12 Yn y gorffennol, gwnaethpwyd y rhan fwyaf o waith craffu ar ôl gwneud penderfyniad. Dros y 18 mis diwethaf, mae’r Cyngor wedi ceisio cyflawni gwell cydbwysedd drwy gyflawni mwy o waith craffu cyn gwneud penderfyniad. Roedd craffu ar y gwaith o ail-ddylunio clybiau ieuenctid yn enghraifft o’r newid hwn. Gall mwy o bwyslais ar graffu cyn gwneud penderfyniad a blaenoriaethu pynciau craffu yn well helpu i leddfu rhai o bryderon aelodau craffu ynghylch gwerth ac effaith y swyddogaeth graffu.

13 Dechreuodd y trefniadau presennol ar gyfer craffu ar berfformiad gwasanaethau ran o’r ffordd drwy’r tymor gweinyddu diwethaf ac maent yn digwydd mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad. Roedd y rhai hynny sy’n gysylltiedig o’r farn bod craffu ar berfformiad yn y modd hwn yn codi proffil craffu ac yn helpu i roi gwybodaeth i aelodau craffu am y gwahanol wasanaethau y mae’r Cyngor yn eu cynnig. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o ddryswch ynghylch swyddogaeth aelodau craffu yn y cyfarfodydd rheoli perfformiad. Mae gan aelodau craffu a swyddogion safbwyntiau gwahanol o ran pa un a ddylai aelodau craffu arsylwi neu herio’n weithredol. Bydd datrys y dryswch hwn ynghylch swyddogaethau yn gwella effeithiolrwydd y broses.

14 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, rhoddwyd hyfforddiant i aelodau’r pwyllgor craffu.  Darparwyd yr hyfforddiant hwn ar adeg pan oedd llawer i’w ddirnad, yn arbennig i gynghorwyr newydd. Gwnaethant fynegi’r farn y byddant yn cael gwerth o hyfforddiant diweddaru. Hefyd, byddai aelodau pwyllgorau craffu yn elwa ar hyfforddiant uwch a manylach gan eu bod yn fwy cyfarwydd â’u swyddogaeth erbyn hyn.

15 Caiff swyddogaeth cymorth craffu y Cyngor ei harwain gan Bennaeth y Gwasanaeth Democratig. Ar y cyd, mae swyddogion cymorth yn hyrwyddo, cefnogi ac arwain y swyddogaeth graffu. Mae eu hadnoddau presennol yn eu galluogi i gefnogi’r pwyllgorau a thri ymchwiliad craffu sy’n cyd-ddigwydd gyda’r ymchwiliadau wedi eu blaenoriaethu gan y Fforwm Craffu trwy flaenoriaethu adnoddau i’r ymchwiliad pwysicaf. Ceir awydd am fwy o ymchwiliadau craffu ymhlith aelodau pwyllgorau. Ceir cyfle felly i’r pwyllgorau ystyried a fyddai gwneud mwy o waith trwy ymchwiliadau craffu, neu ddulliau mwy arloesol o graffu a llai o weithredu trwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol yn rhyddhau adnoddau i gefnogi hyn.

16 Mae gan uwch swyddogion swyddogaeth hefyd i gefnogi’r swyddogaeth graffu. Ond mae hyn wedi’i ddiffinio’n llai, sy’n creu amwysedd ynghylch pa swyddogion sydd angen cefnogi’r swyddogaeth graffu. Awgrymodd aelodau’r Cabinet y dylai Cyfarwyddwyr dderbyn y cyfrifoldeb hwn, sy’n digwydd mewn achosion proffil uchel fel Canolfan Iechyd Blaenau Ffestiniog. Fodd bynnag, roedd aelodau craffu o’r farn bod hyn yn gyfrifoldeb i’r tîm cymorth craffu. Mae cyfle i’r Cyngor adolygu’r math o gymorth craffu sydd ei angen. Dylai hyn adlewyrchu swyddogaeth y tîm cymorth a’r swyddogion a’r cyfarwyddwyr yn y gwasanaethau.

## Byddai cynllunio gweithgareddau craffu yn well, defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfraniadau, a dulliau mwy arloesol o gyflawni yn cynyddu effeithiolrwydd craffu

17 Er bod y Cyngor yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd gyflwyno i'r pwyllgorau fel tystion, nid yw ymgysylltiad cyffredinol y cyhoedd â'r broses graffu wedi datblygu'n dda. Mae dogfennau pwyllgor ar gael ar wefan y Cyngor, ond nid yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd na defnyddwyr gwasanaethau wrth gynnal gweithgareddau craffu ffurfiol mewn pwyllgor. Er enghraifft, nid yw'n gofyn am farn ar bynciau dan sylw nac yn gofyn am farn ar bynciau a allai gael eu craffu, er bod modd i aelodau'r cyhoedd gynnig syniadau trwy'r safle we. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd y drefn arferol, sef derbyn adroddiadau gan swyddogion mewn cyfarfodydd pwyllgor llawn. Disgwylir i'r adroddiadau hynny gynnwys barn defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ar bynciau penodol dan sylw e.e. gwasanaeth ieuenctid, ond nid yw ymgysylltu wedi ymgorffori yn nifer o destunau craffu . Yn ychwanegol, bydd mewnbwn gan y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr yn cael ei gasglu mewn ymchwiliadau craffu.

18 Cyhoeddir blaenraglenni gwaith ar wefan y Cyngor ond nid ydynt yn gyfoes ac nid ydynt yn cynnwys llawer o fanylion. Mae'n anodd i'r cyhoedd weld beth y bydd pwyllgorau yn ei drafod a sut y maent yn bwriadu ei graffu. Wrth ddatblygu hyn dylai'r Cyngor gynnwys mwy o wybodaeth, fel:

- darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac egluro hyn i'r cyhoedd; a
- sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol, ac egluro hyn i'r cyhoedd.

19 Ceir cyfle i bwyllgorau craffu gael rheolaeth o flaengynllunio gwaith, ac wrth wneud hynny, ystyried yn fwy systematig bwysigrwydd meysydd arfaethedig, y ffordd orau o graffu arno, yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ei hangen (er enghraifft adroddiadau archwilio, arolygu a chyrff rheoleiddio) a'r amrywiaeth o dystion (cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, partneriaid, rhanddeiliaid eraill), swyddogion ac aelodau gweithredol y byddai'n debygol o'u gweld. Gwnaethom ni arsylwi ar aelodau'r pwyllgor yn trafod ffynonellau tystiolaeth posibl, ond ceir cyfle i atgyfnerthu hyn yn fwy effeithiol.

20 Mae diffyg cydgysylltu yn parhau rhwng y swyddogaeth graffu a'r cabinet. Mae diffyg manylder ym mlaenraglen waith y cabinet yn ei gwneud yn anodd i bwyllgorau craffu nodi pynciau blaenoriaeth. Mae hyn yn cyfyngu gallu'r pwyllgorau craffu i gyfrannu at lawer o feysydd busnes y cabinet a'u herio.

21 Yn yr un modd â llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, mae'r mwyafrif o weithgareddau craffu yn cael eu cynnal mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol lle caiff adroddiadau swyddogion eu hystyried. Mae hyn yn golygu y daw'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth i'r pwyllgorau gan swyddogion y cyngor, ac mae gallu pwyllgorau i ddefnyddio dulliau mwy arloesol o gasglu tystiolaeth wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y Cyngor wedi ystyried dulliau eraill o graffu, y tu hwnt i'r

amgylchedd pwyllgor traddodiadol. Mae’r rhain yn cynnwys herio perfformiad gwasanaethau, byrddau craffu ardal yn craffu ar addysg a chyfleoedd i aelodau graffu testunau penodol fel datblygiadau TWF Economaidd Gogledd Cymru. Er nad yw dulliau eraill yn gyffredin, ceir rhaglenni treialu defnyddiol y gellid eu datblygu i helpu’r Cyngor i fynd i’r afael â heriau’r dyfodol.

## Mae’r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu yn flynyddol, ac mae’r adolygiad nesaf wedi’i drefnu ar gyfer diwedd 2018

22 Ceir enghreifftiau cadarnhaol o waith craffu yn dylanwadu ar ganlyniadau penderfyniadau’r Cyngor. Er enghraifft, y gwasanaeth rheoli plâu, amlder casgliadau sbwriel a nifer yr aseswyr gofal.

23 Mae’r holl gynghorwyr wedi bod yn rhan o’r drafodaeth am broses y gyllideb, ac mae pawb wedi cael cyfle i ymgysylltu. Mae hyn wedi helpu i gyflawni cytundeb ffurfiol yng nghyfarfodydd y cyngor llawn.

24 Er bod y Cyngor fel arfer yn llunio adroddiad blynyddol ar weithgareddau ei bwyllgorau trosolwg a chraffu, mae’r adroddiad yn disgrifio’r materion a drafodir gan y pwyllgorau yn hytrach na gwerthuso effaith gweithgareddau craffu.

25 Bu i’r Cyngor edrych ar strwythurau’r pwyllgor craffu yn ei adolygiad yn 2017 gan gynnig dwy opsiwn, sef addasu’r hen drefn gan barhau gyda tri phwyllgor craffu, neu symud i un pwyllgor craffu a nifer hwy o ymchwiliadau. Penderfynodd y Cyngor ar yr opsiwn tri phwyllgor (a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) gyda’u meysydd gwaith wedi addasu. Mae’r Cyngor yn bwriadu adolygu effaith craffu unwaith eto tua diwedd 2018. Bydd hyn yn helpu’r Cyngor i nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau a gwella effeithiolrwydd craffu gan ei alluogi i fynd i’r afael â heriau’r dyfodol yn well.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae craffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau ac mae'n 'berchen' ar ei rhaglen waith, drwy ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned â materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn rhoi sicrwydd a chydbwysedd ar sail tystiolaeth i brosesau gwneud penderfyniadau y Gweithrediaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o'r adroddiad o astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da?' (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da?** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cynghorau |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru